


GOSOD DYSGL LOEREN:

CANLLAWIAU AR Y
GOFYNION CYNLLUNIO



OES RHAID CAEL CANIATÂD CYNLLUNIO?

Os ydych yn byw mewn tŷ **nad yw** mewn Ardal Gadwraeth **nac yn adeilad rhestredig** yna nid oes raid wrth ganiatâd cynllunio i osod dysgl, ar yr amod:

- Na fydd mwy na **dwy** dysgl ar yr adeilad neu yn yr ardd
- Nad yw'n fwy na **100cm** am un dysgyl a **60cm** am unrhyw ddysgyl arall
- Nad yw'r ddysgl yn fwy na **35 litr ciwbig**
- Os rhoddir y ddysgl ar y to, nad yw'n ymwithio uwchlaw rhan uchaf y to
- Os rhoddir y ddysgl ar gorn simnai, nad yw'r ddysgl yn fwy na **60cm** nac yn uwch na rhan uchaf y corn.

Os ydych yn byw mewn adeilad 15m neu fwy o uchder ac **nad yw** mewn Ardal Gadwraeth **nac yn adeilad rhestredig**, yna nid angen caniatâd cynllunio i osod dysgl, ar yr amod:

- Nad oes **mwy na pedair dysgl** ar yr adeilad yn ei gyfanrwydd ac nad yw yn fwy na **130cm**
- Nad yw'r ddysgl yn fwy na **35 litr ciwbig**
- Os rhoddir y ddysgl ar y to, nad yw'n ymwithio mwy na **300cm** uwchlaw rhan uchaf y to.

ARDALOEDD CADWRAETH

Mae'r amodau sy'n rheoli'r gwaith o osod dysgl loeren mewn Ardal Gadwraeth yn dynnach ond mae modd ystyried dysgl yn 'ddatblygiad a ganiateir' – cyn belled ag y bydd yn bodloni amodau penodol. Dyma nhw:

- **Y caiff ei gosod fel bod cyn lleihed o effaith ar yr olygfa â phosib**
- **Nad yw'r ddysgl yn fwy na 90cm mewn unrhyw ddimensiwn**
- **Nad yw'n cael ei gosod yn uwch na rhan uchaf y to**
- **Nad yw'n cael ei gosod ar y simnai**
- **Nad yw ar adeilad sy'n uwch na 15m**
- **Nad yw ar wal neu do sy'n wynebu priffordd (gan gynnwys llwybr troed)**
- **Nad oes dysgl eisoes ar yr adeilad**

Os bodlonir yr holl amodau hyn yna nid oes angen caniatâd cynllunio

ADEILADAU RHESTREDIG

Pan fo dysgl loeren yn cael ei rhoi ar adeilad rhestredig bydd posibilrwydd fod angen Caniatâd Adeilad Rhestredig (CARh) gan fod posibilrwydd y byddai'n cael effaith ar ei gymeriad fel adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig [Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth)1990]

Yn yr achos hwn pan fyddwch yn gwneud cais am ganiatâd dylid dilyn y canllawiau ynghylch gosod dysglau mewn Ardaloedd Cadwraeth.

GOFYNNWCH AM GYNGOR BOB TRO

Cofiwch, rydym yma i'ch helpu i wneud y penderfyniad cywir. A fyddech cystal â chysylltu â'r Gwasanaeth Cynllunio cyn i chi fwrw ymlaen i osod y ddysgl. Rhown wybod i chi a oes raid wrth ganiatâd cynllunio neu ganiatâd adeilad rhestredig.

Cofiwch, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau y bodlonir y gofynion cynllunio. Oni wneir hyn, mae gan y Cyngor y grym i ofyn i chi osod y ddysgl mewn man arall neu gael gwared â hi.

Dylai cyflenwyr dysglau lloeren a phobl sy'n eu gosod fod yn gyfarwydd gydag agweddau cynllunio gosod dysglau o'r fath. Fe'ch cynghorir yn gryf i gael eich cyfarpar oddi wrth aelodau RETRA (Radio, Electrical and Television Retailers' Association) ac i aelod o CAI (Confederation of Aerial Industries) ei osod. Dylai person profiadol fedru eich cynghori ynghylch gosod y ddysgl mewn man a fyddai'n cael cyn lleied o effaith â phosib ar yr amgylchedd a'r olygfa.


Pethau i'w cofio:

- **Nid yw perfformiad dysgl yn dibynnu ar ei uchder**
- **Mae modd peintio dysgl iddi ymdoddi i'r cefndir**
- **Mae dysgl rwydog yn llai ymwithgar nag un solid.**
- **Nid oes raid rhoi dysgl yn sownd wrth dŷ – maent yn gweithio cystal yn sownd wrth adeilad allanol neu hyd yn oed ar y ddaear.**
- **Gall dysgl weithio trwy wydr ac mae modd ei rhoi mewn tŷ gwydr er enghraifft.**
- **Nid yw simnai yn lleoliad da oherwydd y llwyth gwynt y mae'n ei roi ar y corn.**


GOSOD DYSGL

Wrth benderfynu lle i osod y ddysgl cofiwch ei bod yn fwy tebygol y cewch ganiatâd (os oes rhaid wrtho) am ddysgl sydd wedi'i guddio'n dda, ddim yn ymwthiol ac sy'n ymdoddi i'r cefndir.

Lleoliadau Gwael



Lleoliadau Da



Polisiau Cynlluniau a chanllawiau cynllunio cenedlaethol

Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 3.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Dylid edrych ar bolisiau Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd a Chanllawiau Cynllunio Atodol (copiau ar y wefan yma) yn ogystal a chanllawiau cynllunio cenedlaethol, cyn cyflwyno cais.

Hefyd, os bwriedir cyflwyno cais rydym yn annog darpar ymgeiswyr i ddefnyddio'r gwasanaeth rhoi cyngor cyn cyflwyno cais sydd yn cael ei ddarparu gan y Gwasanaeth Cynllunio. Dylid cydymffurfio gyda gofynion y Nodyn Canllaw – Cynnig Cyngor Cyn Cyflwyno cais (ar y wefan) cyn ceisio trefnu apwyntiad i weld Swyddog Cynllunio.

Cyfeiriadau Defnyddiol

Confederation of Aerial Industries Limited (CAI)

Fulton House
Fulton Road
Wembley Park
Middlesex HA9 OTF
020 8902 8998
e-mail: Office@cai.org.uk
www.cai.org.uk

Radio, Electrical and Television Retailers' Association Ltd (RETRA)

Retra House
St John's Terrace
1 Ampthill Street
Bedford MK42 9EY
01234 269 10
e-mail: retra@retra.co.uk
www.retra.co.uk

Office of the Deputy Prime Minister

Planning Development Control Division
Eland House
Bressenden Place
London SW1E 5DU
020 7944 4400
e-mail: enquiryodpm@odpm.gsi.gov.uk
www.odpm.gov.uk

Cyngor Gwynedd

Gwasanaeth Cynllunio

Adran Rheoleiddio

Ffordd Y Cob

Pwllheli

Gwynedd

LL53 5AA

Ffôn: 01766 771 000

e-bost: planning@gwynedd.gov.uk

www.gwynedd.gov.uk